# D Strategaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 2020 - 25

Gwneud Recriwtio'n Fwy Diogel



Disclosure & Barring Service

# Ein Pwrpas

Diogelu'r cyhoedd drwy helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel a thrwy wahardd unigolion rhag gweithio mewn swyddi arbennig.

# Ein Gweledigaeth

Drwy fod yn sefydliad gweladwy, dylanwadol, y gellir ymddiried ynddi, sydd yn cynnig gwasanaeth o ansawdd rhagorol i'n holl gwsmeriaid a phartneriaid. Lle mae ein pobl yn deall y cyfraniad pwysig tuag at ddiogelu a wnânt ac yn teimlo'n falch o weithio yma. Gwneud Recriwtio'n Fwy Diogel.

**'Cynnig gwasanaeth o ansawdd rhagorol i'n holl gwsmeriaid a phartneriaid.'**



# Rhagair y Cadeirydd



Dechreuodd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y broses o gynhyrchu'r strategaeth pum mlynedd yma yn ystod haf 2019. Roedd yn bwysig i ni y byddai'r strategaeth yn uchelgeisiol ac wedi ei chanolbwyntio ar ansawdd a phobl.

Drwy gyflenwi'r strategaeth yma bydd y Gwasanaeth yn gallu sicrhau bydd y sefydliad yn parhau i ddatblygu a ffynnu, cynnig gwasanaethau o'r safon uchaf ac felly yn gwneud gwir gyfraniad tuag at faes diogelwch cenedlaethol. Ers y dechrau, cymerwyd y penderfyniad mawr gan y Gwasanaeth wrth iddi benderfynu 'cyd-greu' y strategaeth yma gyda'n staff a'n partneriaid, gan ddechrau ar ystod eang o 'Sgyrsiau Mawrion' a gafodd eu cynnal ar-lein ac wyneb yn wyneb ac a olygodd dros 40,000 o gyfraniadau tuag at y strategaeth. O ganlyniad, mae gennym strategaeth sydd yn adlewyrchu consensws cryf iawn ynglŷn â'n diben, gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau.

Mae hyn yn orchest sylweddol ac rydym yn falch iawn ohono. Er mwyn sicrhau ein bod yn gwireddu ein hymrwymiadau, rydym wedi cyflwyno trefniadau llywodraethiant newydd fydd yn ein cyfarparu i allu arwain gweithrediad ein strategaeth hyd at 2025.

Ansawdd sydd wrth galon y strategaeth hon. Bydd popeth a wnawn yn ystod y pum mlynedd nesaf yn cyfrannu tuag at chwarae ein rhan i sicrhau, drwy gyfrwng ein gwasanaethau a chynnyrch, fod gan gyflogwyr yr wybodaeth sydd ei hangen i allu gwneud penderfyniadau recriwtio diogel. Ein nod bellach yw sicrhau ein bod yn cyflenwi'r strategaeth a byddwn yn gweithio'n ddiflino i sicrhau ein bod yn gwneud hynny.

**Dr Gillian Fairfield**,
Cadeirydd

# Cyflwyniad y Prif Weithredwr



Sefydliad cenedlaethol yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd yn gwneud swyddogaeth unigryw. Y llynedd fe wnaethom ddyrannu 6 miliwn o dystysgrifau a chynnal dwy Restr Waharddedig o fwy na 77,000 o bobl. Cyflogwn dros 1,000 o staff i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae ein gwaith yn cynnig diogelwch sylweddol i'r cyhoedd. Rhaid bod ansawdd wrth wraidd yr hyn a wnawn; ansawdd yn y cynnyrch y byddwn yn ei gynnig ac ansawdd yn y penderfyniadau a wnawn. Bydd ein cynllun strategol yn gwella sefydliad sydd eisoes yn perfformio'n dda ymhellach. Bydd yn moderneiddio'r gwasanaethau a ddarparwn, y ffordd yr ydym yn gweithio a'r ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n partneriaid.

Ceir nifer o gamau gweithredu ymarferol yn y strategaeth fydd yn galluogi'r Gwasanaeth i wneud gwelliannau diriaethol i'n gwasanaeth i'r cyhoedd. Byddwn yn gwella'r ffordd y gellir cael mynediad at ein gwasanaethau, cyflymder ac effeithlonrwydd ein prosesau a defnyddio technoleg i fwyhau ein gwaith. Ni allwn gyflenwi'r cynllun hwn ar ein pennau ein hunain a byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, yn strategol ac yn weithredol i wneud recriwtio'n fwy diogel. Byddwn hefyd yn creu'r amodau drwy weithio'n fwy clyfar, datblygu staff yn well a chael gweithle mwy cynhwysol ac amrywiol i wella'n perfformiad.

Ysgrifennwyd y strategaeth hon ar bwynt mewn amser. Mae'n amlinellu cyfeiriad ein taith a'r meysydd o flaenoriaeth allweddol y byddan yn canolbwyntio arnyn nhw. Bob blwyddyn caiff ei adnewyddu drwy gyfrwng Cynllun Busnes a gynhyrchir yn flynyddol, fydd yn disgrifio sut y byddwn yn cymryd y camau fydd yn rhoi ein strategaeth ar waith ar gyfer y flwyddyn honno.

Byddaf yn canolbwyntio fy ymdrechion i sicrhau ein bod yn cyflenwi hwn yn ystod y pum mlynedd nesaf ar ran y Bwrdd, ein Gweithlu a'r cyhoedd.

**Eric Robinson**,
Prif Weithredwr

# Ein Blaenoriaethau Strategol

## Ansawdd

Cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel, dibynadwy, cyson, amserol a hygyrch i'n **cwsmeriaid**.

Cofleidio **technoleg** er mwyn gyrru gwelliannau i ansawdd ein gwaith.

## Pobl

Datblygu **gweithlu** talentog ac amrywiol sydd yn deall sut mae eu cyfraniadau yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

Adeiladu **gweithle** hyblyg, bywiog a chyfoes lle gall ein staff wneud eu swydd gan ddefnyddio ffyrdd cyfoes o weithio sydd yn glyfar ac sydd yn hybu **UnDBS**.

## Proffil

Codi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth a'r hyn rydym yn ei gynnig, gan **barhau i ddiweddaru pobl** drwy ein cyfathrebiadau, cynyddu dealltwriaeth gyhoeddus a hyder yn ein sefydliad.

Bod yn sefydliad y mae iddi barch ac ymddiriedaeth, yn gweithio gyda'n **partneriaid** er mwyn chwarae rhan ddylanwadol yn yr amgylchedd y byddwn yn gweithio ynddi.

**'Parchwn a gwerthfawrogwn bawb, ac rydym yn cydnabod a gwerthfawrogi ymdrechion ein gilydd.'**



# Ein gwerthoedd ac ymddygiad

**Gweithiwn gyda'n gilydd**
Cydweithiwn, gwrandawn, dysgwn a rhannwn wybodaeth gyda'n cydweithwyr drwy'r Gwasanaeth a chyda'n partneriaid allanol.

Parchwn a gwerthfawrogwn bawb, ac rydym yn cydnabod a gwerthfawrogi ymdrechion ein gilydd.

Rydym yn dryloyw ac yn cyfathrebu'n eglur, yn agored a chyda tryloywder ymhob rhyngweithiad yn y gwaith.

**Gweithredwn gydag Unplygrwydd**
Rydym yn atebol, cymerwn gyfrifoldeb am ein gweithredoedd a'n penderfyniadau ac yn gwireddu ein haddewidion. Sicrhawn ein bod yn trin ein holl gydweithwyr yn deg.

Rydym yn ymddwyn gyda phroffesiynoldeb, gan geisio gwneud y peth iawn.

Canolbwyntiwn ar ein cwsmeriaid, gan roi anghenion ein cwsmeriaid yn gyntaf ymhob agwedd o'n gwaith, gan sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth gorau posib iddyn nhw.

**Rydym yn anelu at ragoriaeth**
Heriwn ein hunain i fod yn greadigol a chanfod ffyrdd newydd o weithio er mwyn i ni allu cynnig y gwasanaeth gorau posib i'n cwsmeriaid.

Ceisiwn o hyd i gynhyrchu ein gwaith gorau o ran ansawdd yn gyson a chywir.



# Diben y ddogfen hon

Diben y strategaeth hon yw gosod cyfeiriad ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, drwy adnabod gweithgarwch sydd wedi ei gynllunio er mwyn gwella effeithiolrwydd ein sefydliad a'n cyfraniad tuag at Wneud Recriwtio'n Fwy Diogel. Bob blwyddyn byddwn yn cynhyrchu Cynllun Busnes mwy manwl, sydd yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a gynhyrchir.

Anelir y strategaeth at ein partneriaid, cwsmeriaid a'n pobl fel bod gan bawb ddealltwriaeth eglur o gyfeiriad ein taith a'r newidiadau y bwriadwn eu gwneud.



# Ein cyd-destun

Mudiad hir-sefydledig yw'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chanddi swyddogaeth a chylch gwaith clir a ffyrdd hir-sefydlog o weithio. Mae'r byd o'n hamgylch yn newid yn gyflym a rhaid i ni nawr ymateb i'r cyd-destun hwn ac yn ychwanegol at hynny, minio ein prosesau er mwyn gallu gweld yr hyn sydd ar y gorwel a chael mewnwelediad, gan sicrhau ein bod yn cychwyn ar daith o welliant parhaus yn ystod y pum mlynedd nesaf. Mae gan y Gwasanaeth broffil cenedlaethol is nac mae gofyn iddi gael. Mae hyn yn amrywio o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o'u dyletswydd i gyfeirio achosion at Wahardd, cymhwysedd ar gyfer tystysgrifau datgelu a phroffil strategol isel gyda budd-ddeiliaid allweddol. Mae'n bwysig i unioni hyn er mwyn sicrhau ein bod yn dal pob cyfeiriad perthnasol.

Parhau i esblygu mae technoleg ac mae'r cyhoedd bellach yn awyddus i gael mynediad at ein gwasanaethau yn ddigidol a chadw gwybodaeth ar eu ffonau clyfar a thabledi. Mae technoleg y Gwasanaeth wedi dyddio, mae ein gwasanaethau yn anodd cael mynediad atyn nhw'n electronig ac mae ein tystysgrifau Datgelu yn parhau i gael eu cynhyrchu ar bapur. Er ein bod yn gwella ein technoleg yn barhaus, rhaid cyflymu'r broses hon. Mae nifer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn gweithredu trefniadau gweithio mwy clyfar ac o ganlyniad maent yn cadw staff ac yn denu talent newydd i'w gweithluoedd. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos mai deilliant trefniant o'r fath yw cynnydd mewn cynhyrchiant. Mae'r Gwasanaeth yn eithaf traddodiadol yn ei ffordd o weithio a rhaid mynd i'r afael â hyn.

Er bod yna rai materion cyd-destunol a wyddwn amdanynt, nid yw rhai eraill eto'n hysbys; er enghraifft, beth fydd argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, sut fydd polisi Llywodraeth yn newid neu ba dechnoleg newydd allai fod ar gael. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio paratoi'r strategaeth ar gyfer y dyfodol drwy ganolbwyntio ar gyflenwi gwelliannau sylweddol tuag at ansawdd ein gwaith. Bydd ein hadolygiad blynyddol a'n cynlluniau busnes blynyddol yn ein caniatáu i allu addasu i unrhyw newidiadau sylweddol o fewn ein hamgylchedd weithredu.

**'Mae hyn yn amrywio o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o'u dyletswydd i gyfeirio achosion at Wahardd, cymhwysedd ar gyfer tystysgrifau datgelu a phroffil strategol isel gyda budd-ddeiliaid allweddol.'**

# Pwy ydym ni a'r hyn a wnawn

Mae'r Gwasanaeth yn cyflenwi swyddogaethau Datgelu a Gwahardd ar ran y llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer Cymru, Lloegr, Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw a swyddogaethau Gwahardd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ymgymerwn â'r gwaith yma o'n canolfannau yn Darlington a Lerpwl.

Crëwyd y Gwasanaeth yn 2012 o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Rhyddid 2012. Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol sydd yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref. Rydym yn cynnig gwasanaeth pwysig sydd yn helpu diogelu a gwarchod pobl yn ein Cymdeithas tra'n sicrhau ein bod yn amddiffyn hawliau unigolion yn gyfrannol. Gwnawn hyn drwy roi gwybodaeth berthnasol, a lle bo'r angen, gwneud penderfyniadau gwahardd er mwyn helpu cyflogwyr wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig pedwar math o dystysgrif cofnod troseddol, a elwir yn wiriadau neu ddatgeliadau DBS a gweithredwn system o ddiweddaru tystysgrifau drwy ein Gwasanaeth Diweddaru. Rydym hefyd yn gwahardd unigolion rhag gweithio dan amgylchiadau arbennig. Caiff ein gwaith ei ariannu drwy ffioedd gan ein cwsmeriaid datgelu.

**'Rydym yn cynnig gwasanaeth pwysig sydd yn helpu diogelu a gwarchod pobl yn ein Cymdeithas tra'n sicrhau ein bod yn amddiffyn hawliau unigolion yn gyfrannol.'**



**Gwiriad Sylfaenol Y Swyddfa Cofnodion Troseddol**
Mae hwn ar gael ar gyfer unrhyw swydd neu ddiben a bydd yn cynnwys manylion euogfarnau a rhybuddiadau amodol a ystyrir sydd heb eu disbyddu.

**Gwiriad Safonol y Swyddfa Cofnodion Troseddol**
Ceir tystysgrifau safonol ar gyfer swyddi penodol a amlinellir mewn deddfwriaeth. Byddant yn dangos euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion, sydd wedi ac sydd heb eu disbyddu ac sydd wedi eu cadw ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, yn ddarostyngedig i reolau hidlo.

**Gwiriad Manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol**
Dyma'r lefel gwirio uchaf sydd ar gael i unrhyw un sydd yn gweithio gyda grwpiau bregus ac mewn safleoedd o ymddiriedaeth uchel.
Mae tystysgrifau manwl yn cynnwys yr un wybodaeth â'r dystysgrif safonol, ynghyd â gwybodaeth berthnasol gan yr heddlu lleol.

**Gwiriad Manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda Gwiriad o'r Rhestr Waharddedig**
Mae gwiriad Manwl ynghyd â Rhestrau Gwaharddedig yn dangos yr un wybodaeth â gwiriad Manwl a hefyd p'un a yw'r ymgeisydd wedi ei gynnwys yn rhestrau'r sawl sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant mewn grwpiau hyglwyf, lle mae'r swydd yn ymwneud â Gweithgarwch Rheoledig. Gwnawn benderfyniadau gwybodus ynglŷn â ph'un a ddylid gwahardd unigolyn rhag cymryd rhan mewn Gweithgarwch Rheoledig gyda phlant a/neu oedolion ac rydym yn cynnal y rhestrau Gwaharddedig Plant ac Oedolion. Gwnawn benderfyniadau gwybodus ynghylch a yw'n addas i dynnu person oddi ar restr waharddedig.



# Blaenoriaeth Strategol: Ansawdd, Nod Un

Byddwn yn darparu gwasanaethau dibynadwy, cyson, amserol, hygyrch o ansawdd uchel ar gyfer ein cwsmeriaid.

### Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ansawdd wrth galon popeth a wnawn ni. Mae ein partneriaid a'n cwsmeriaid yn awyddus i ni wella ar ein darpariaeth er mwyn iddyn nhw allu dibynnu ar wasanaeth cyflym a chywir. Er mwyn diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn gywir mae angen i ni wneud y broses o gael mynediad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn haws a'u diweddaru'n rheolaidd. Dywedodd ein staff eu bod yn eiddgar i ddeall yr hyn mae cwsmeriaid ei angen ac yn ei ddymuno er mwyn iddyn nhw allu helpu gwella ein holl gynnyrch.

### Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

### 1. Datblygu Gweledigaeth Newydd ar gyfer Taith ein Cwsmeriaid ar gyfer ein holl Wasanaethau

Byddwn yn deall pwy yw ein cwsmeriaid a'r daith fyddan nhw arni wrth gael mynediad i'n cynnyrch. Bydd hyn yn ein caniatáu i ddatblygu cynllun er mwyn gwella ansawdd ein gwasanaeth ac i foderneiddio'r ffordd caiff y gwasanaethau hynny eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys datblygiad cynnyrch sylweddol ac arwyddocaol a gwell mynediad drwy dechnoleg gynorthwyol, testun hawdd ei ddeall ac ar gyfer pobl pan nad Saesneg fydd eu hiaith gyntaf.

### 2. Gweithredu Newid Deddfwriaethol

Byddwn yn rhoi'r newidiadau Technoleg Gwybodaeth a phroses angenrheidiol ar waith er mwyn cydymffurfio ag unrhyw unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygiedig.

### 3. Cyflwyno Gwelliannau Gwahardd a Diogel

Byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein gwasanaeth Gwahardd a sicrhau bod penderfyniadau cadarn ac amserol yn cael eu gwneud yn gywir.

Byddwn yn cyflwyno newidiadau i wella'r ffordd mae Gwahardd yn cael ei drefnu, ei broffil, ein perthynas gyda'n partneriaid, y ffordd y ceir mynediad at y gwasanaeth a'r prosesau ar gyfer ymdrin â phob achos.

### 4. Datblygu ein Mewnwelediad a Gwybodaeth

Byddwn yn cyfuno ein holl ddata o fewn ein stordy data newydd, gan ddod â'n holl wybodaeth busnes, rheolaeth a pherfformiad ynghyd mewn un man.

Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu mewnwelediad a deallusrwydd i nodi tueddiadau, datblygu ein rhaglen ymchwil a helpu'r GDG i wella'n barhaus.

### 5. Cyflwyno Porth Gwahardd newydd

Byddwn yn ailgynllunio'r porth gwahardd a'i wneud yn haws i'n cwsmeriaid gael mynediad ato, gan sicrhau ein bod yn derbyn cyfeiriadau gwahardd o gyfeiriadau a gawn ar bapur.





**‘Mae ansawdd wrth galon popeth a wnawn ni. Mae ein partneriaid a’n cwsmeriaid yn awyddus i ni wella ar ein darpariaeth er mwyn iddyn nhw allu dibynnu ar wasanaeth cyflym a chywir.’**

### 6. Cyflwyno Ymagwedd newydd tuag at Farchnata’r Gwasanaeth

Byddwn yn cynhyrchu Cynllun Marchnata ar gyfer y Gwasanaeth Gwahardd a Diogelu er mwyn ein galluogi i hyrwyddo a datblygu ein cynnyrch yn well.

### 7. Gwella ein gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Byddwn yn gwella ein cynrychiolaeth o grwpiau perthnasol yn y newidiadau a wnawn i’n gwaith. Byddwn yn gostwng y rhwystrau ieithyddol i’n gwasanaeth, yn enwedig i’r sawl nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

### Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan...

Y byddwn wedi datblygu model gweithredu newydd ar gyfer y gwasanaethau rydym yn eu cynnig ac wedi’u cyflenwi dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae newid deddfwriaethol wedi’i ymgorfforii’r hyn a wnawn.

Mae’r newidiadau a wnawn i’n gwasanaeth yn rhai diriaethol a chynaliadwy. Gwelwyd gostyngiad yn y nifer o gwynion ac apeliadau ac mae ein metrigau perfformiad wedi gwella.

Mae ein mewnwelediad a gwybodaeth yn cael eu defnyddio i’n helpu ni i wella darpariaeth ein gwasanaeth.

Mae metrigau ansawdd wedi gwella a’r gyfradd gwallau wedi lleihau.

# Ansawdd, Nod Dau

## Byddwn yn cofleidio technoleg er mwyn gyrru gwelliannau i ansawdd ein gwaith.

**Pam fod hyn yn bwysig?**

Dymuna ein cwsmeriaid gael mynediad hawdd at wasanaethau gan ddefnyddio technoleg deithiol. Ni fydd ein Technoleg Gwybodaeth cyfredol yn diwallu'r angen hwn a bydd angen i ni wella'n technoleg er mwyn ein galluogi i gyflymu ein prosesau ac addasu'n gyflym yn y dyfodol.

Mae ein pobl am i ni gofleidio technoleg fodern a sicrhau bod ganddyn nhw'r offer cywir i allu darparu gwasanaethau rhagorol. Mae angen moderneiddio sylweddol ar ein systemau cyfredol a cheir dibyniaeth fawr ar bapur yn hytrach na chynnyrch digidol.

**Sut wnawn ni gyflawni hyn?**

**1. Trrosglwyddo i Gyflenwyr Technoleg a Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid newydd**

Byddwn yn trosglwyddo i ddau gyflenwr newydd, un i gymryd rheolaeth o'n cytundeb technoleg a'r llall i reoli ein Canolfan Gyswllt.

O ganlyniad i'r newid hwn, byddwn yn rheoli pensaernïaeth ein llwyfannau technoleg am y tro cyntaf yn ein hanes. I gychwyn, bydd trawsnewidiad y gwasanaethau hyn ar sail tebyg-am-debyg er mwyn cadw dilyniant gwasanaeth, gyda'r gallu a'r bwriad i ailadrodd a gwella yn y dyfodol agos.

**'Byddwn yn diweddaru ein llwyfan ar gyfer Gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Safonol a Manwl er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu gwasanaeth dibynadwy ac effeithlon i'n cwsmeriaid.'**



**2. Adnewyddu Llwyfan Datgelu**
Byddwn yn diweddaru ein llwyfan ar gyfer gwiriadau Safonol a Manwl y Gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gynnig gwasanaeth dibynadwy ac effeithlon i'n cwsmeriaid. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau gyda'r cyflenwr cyfredol ac fe gaiff ei gwblhau gan ein partner TG.

**3. Darparu Technoleg**
Byddwn yn newid y modd caiff technoleg ei ddarparu ar draws y busnes. Byddwn yn symud i ffwrdd o drefniadau gyda chyflenwyr allanol mawr, sengl. Cawn ein gweld yn rhannu ein hystâd dechnoleg er mwyn dileu'r angen am raglenni amnewid llwyfan technoleg fawr. Bydd hyn yn ein galluogi i benderfynu p'un a ddylid cael cytundeb mewnol neu allanol ar gyfer gwasanaeth technoleg unigol, yn ddibynnol ar briodoldeb a pha mor addas yw gwasanaeth yn hytrach na'r llwyfan cyfan.

**4. Ein Model Gweithredu Targed**
Byddwn yn datblygu model gweithredu newydd er mwyn ein harfogi i ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol.

**Byddwn wedi llwyddo pan...**
Y byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda chyflenwyr newydd ac yn gallu cyflenwi newid yn gydweithiol.

Y byddwn wedi gwella ein system datgelu.

Y bydd gennym reolaeth dros ddiwallu ein hanghenion technoleg.

Y byddwn yn wasanaeth sydd wedi'i seilio ar dechnoleg ffocysu-ar-gwsmer modern.



# Blaenoriaeth Strategol: Ein Proffil, Nod Tri

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r gwasanaethau a gynigwn, gan hysbysu a diweddaru pobl drwy ein cyfathrebiadau, er mwyn cynyddu dealltwriaeth gyhoeddus o'n sefydliad.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Dywed yr adborth a gawn o'n cwsmeriaid eu bod yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wybodaeth y Gwasanaeth ac nad yw'n hawdd o hyd i ddefnyddio'r wybodaeth. Er bod ein harolygon gwasanaeth cwsmer yn gadarnhaol ar y cyfan, fe wyddom y gallwn wella ar yr wybodaeth a roddwn ynglŷn â'n gwasanaethau. Dymuna'n cwsmeriaid gael mynediad at wasanaethau yn ddigidol gan ddefnyddio technoleg deithiol a hoffwn gynnig siop-un-cam digidol, syml er mwyn cael mynediad at ein holl wasanaethau datgelu a gwahardd. Rydym yn cydnabod bod angen codi ein proffil cyffredinol ymhlith y cyhoedd a chyflogwyr er mwyn cael ein hadnabod fel sefydliad proffesiynol y gellir ymddiried ynddi. Gwyddom nad yw pob achos sydd angen cyfeiriad gwahardd gennym yn ein cyrraedd. Mae angen i ni sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gwybod pryd a sut mae cyfeirio. Yn fewnol rydym yn adnabod yr angen i wella ein cyfathrebiadau fydd yn annog ymagwedd **UnDBS** er mwyn cefnogi'n staff.

## Sut wnawn ni gyflawni hyn?

### 1. Gwefan Newydd

Byddwn yn datblygu gwefan well a chanddi fwy o ymreolaeth a nodweddion nad sydd ar gael ar hyn o bryd, er mwyn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r cyhoedd a phartneriaid allanol. Byddwn yn



cynnal ymchwil er mwyn deall anghenion ein cwsmeriaid, sicrhau bod y wefan yn hawdd i'w ddefnyddio a bod ein holl wybodaeth yn hawdd i'w gael ati. Bydd y wefan hefyd yn hwyluso gwasanaethau trafodaethol a'r gallu i gyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### 2. Technoleg Cwsmer Newydd

Byddwn yn lansio technoleg deithiol fydd yn cynnig gwybodaeth ynglŷn â'n gwasanaethau, cymhwysedd gwiriadau a lefelau gwasanaeth, gan ymddwyn fel tywysydd digidol ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### 3. Mewnrwyd Newydd

Byddwn yn cyflwyno mewnrwyd fydd yn galluogi ein pobl i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Byddwn yn cynnal ymchwil defnyddiwr er mwyn penderfynu ar ein hanghenion, gweithio gyda'n tîm masnachol a'n cyflenwyr er mwyn dod o hyd i'r cynnyrch mwyaf addas ac yna ei ddatblygu i'n manyleb ein hunain.

Yna byddwn yn ei rhoi ar waith, fesul cam gan fabwysiadu a gyrru newid diwylliannol er mwyn defnyddio'r arf yma'n effeithiol.

### 4. Ymgyrchoedd Allanol

Byddwn yn creu ymgyrchoedd cyfathrebu strategol, yn seiliedig ar wybodaeth a dadansoddiad, i dargedu gwahanol feysydd ac i hyrwyddo cynnyrch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn ein caniatáu i ddiogelu grwpiau bregus yn well o fewn ein cymdeithas.

### 5. Cyfathrebu Mewnol

Byddwn yn dylunio fframwaith gyfathrebiadau sydd yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu, rhyngweithio ac ymgysylltu â'n staff er mwyn eu diweddaru'n rheolaidd ynglŷn â holl agweddau ein gwaith.

### 6. Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Staff

Byddwn yn gweithredu cynllun ymgysylltu staff newydd fydd yn rhoi cyfleoedd i gydweithwyr chwarae rhan barhaus yn y modd mae'r sefydliad yn parhau i wneud cynnydd. Byddwn yn datblygu model sydd yn rhoi cyfle i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael sgyrsiau mwy dilys gyda'n staff, er mwyn iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu clywed a'u hymglymu.

### 7. Delwedd

Byddwn yn datblygu ein delwedd ac yn cryfhau ein brand er mwyn sefydlu ei hunaniaeth fel mudiad hawdd i'w adnabod o fewn y gymuned diogelu.

Bydd hyn yn golygu defnyddio cysyniadau creadigol er mwyn gwneud ein gwybodaeth yn fwy hygyrch a dealladwy.

### Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan...

Y byddwn wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac wedi hyrwyddo'r rhan mae'r sefydliad yn chwarae wrth 'Wneud Recriwtio'n Fwy Diogel'.

Y byddwn wedi cynyddu bodlonrwydd ein staff.

Bydd nifer y cyfeiriadau ar-lein a pherthnasol wedi cynyddu.

**'Rydym yn cydnabod bod angen codi ein proffil cyffredinol ymhlith y cyhoedd a chyflogwyr er mwyn cael ein hadnabod fel sefydliad proffesiynol y gellir ymddiried ynddi.'**

# Ein Proffil, Nod Pedwar

## Fe ddown yn sefydliad sydd yn ennyn parch ac ymddiriedaeth; yn gweithio gyda'n partneriaid a chwarae rhan ddylanwadol yn ein hamgylchedd gwaith.

### Pam fod hyn mor bwysig?

Mae ein llwyddiant wrth ddarparu'r strategaeth yn ddibynnol ar weithio gyda'n partneriaid mewn modd cydweithiol.

Yn ystod ein trafodaethau gyda'n partneriaid, fe wnaed hi'n glir eu bod nhw am gael perthynas agosach gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu llunio'r modd y byddwn yn darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol fel bod eu hanghenion hwythau'n cael eu hadlewyrchu.

O'n gwaith maes, mae'n eglur nad yw nifer o gyflogwyr yn deall eu dyletswydd i gyfeirio at y gwasanaeth gwahardd ac mae ein data yn cefnogi hyn. Heb y cyfeiriadau cywir ar yr adeg briodol, nid oes unrhyw fodd i ni wahardd unigolyn a'i rwystro rhag gweithio gyda grwpiau bregus.

Mae angen inni weithio gyda'n partneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r ddyletswydd i gyfeirio a'n galluogi ni i gyflawni ein swyddogaeth statudol.

Adleisiwyd y farn yma gan staff yn gryf yn ystod y broses o gyd-greu'r strategaeth hon.

### Sut wnawn ni gyflawni hyn?

#### 1. Byddwn yn datblygu Cynllun Partneriaeth newydd

Caiff cynllun newydd ei gytuno arni i helpu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd reoli ein holl berthnasau gyda'n partneriaid allweddol. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddeall eu hanghenion, tyfu ein proffil a gwella ansawdd ein gwasanaethau.

#### 2. Byddwn yn Ailstrwythuro er mwyn Cyflenwi'r Cynllun Partneriaeth

Fe ddown â'r timoedd gwahanol o fewn ein sefydliad sydd yn goruchwylio ein gwaith gyda phartneriaid amrywiol ynghyd a chreu un swyddogaeth a all gydlynu a chyflenwi ein cynllun, tra'n sicrhau bod ein perthynas gyda'n partneriaid yn gynhyrchiol ac ystyrlonl.

#### 3. Byddwn yn cyflwyno Gweithwyr Maes Rhanbarthol

Byddwn yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â chymhwystra ar gyfer, a'r ffordd gywir o ddefnyddio cynnyrch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cyflogwyr, mudiadau gwirfoddol, mudiadau cyfeirio a'r sawl y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth ganddyn nhw mewn perthynas â chyfeiriadau.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ymhob rhanbarth ac yn fan cyswllt ar gyfer popeth sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

#### 4. Byddwn yn Datblygu ein Perthynas gyda'r Swyddfa Gartref ac Adrannau eraill y Llywodraeth

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth, yn dysgu ac yn rhannu arfer gorau gyda nhw. Bydd hyn yn cynnwys rhannu ein deilliannau ymchwil a chyhoeddi ein canfyddiadau hefyd pan yw'n briodol.

**‘Byddwn yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â chymhwystra ar gyfer, a’r ffordd gywir o ddefnyddio cynnyrch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cyflogwyr, mudiadau gwirfoddol, mudiadau cyfeirio a’r sawl y byddwn yn ceisio cael gwybodaeth ganddyn nhw mewn perthynas â chyfeiriadau.’**

### 5. Byddwn yn datblygu Rhaglen Waith gyda Chyrff Cofrestredig a Sefydliadau cyfrifol

Byddwn yn datblygu rhaglen waith uchelgeisiol gyda’r Cyrff Cofrestredig, Cyrff Ambarél a Chyrff Cyfrifol er mwyn gwella ansawdd ein gwasanaethau i’r cyhoedd a sicrhau bod ganddyn nhw lais yn ein newidiadau arfaethedig.

### 6. Byddwn yn Datblygu Rhaglen Waith gyda’r Heddlu

Byddwn yn datblygu cynllun gwaith wedi’i gytuno gyda’r Heddlu er mwyn optimeiddio ein perthynas waith.

Bydd hyn yn ystyried pa waith rydym yn ei anfon ar hyn o bryd i’r heddlu a sut gaiff y gwaith hwnnw ei reoli o fewn yr heddlu, er mwyn cyflymu darpariaeth canlyniadau eu hystyriaethau.

### 7. Byddwn yn cynnal Cynhadledd Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Blynyddol

Byddwn yn trefnu cynhadledd flynyddol ar gyfer ein cwsmeriaid a’n partneriaid er mwyn arddangos y newidiadau y byddwn yn eu cyflenwi ac unrhyw newidiadau diogelu fydd yn effeithio ar ein gwaith.

### 8. Byddwn yn Datblygu a Gweithredu Swyddogaeth Cleient Deallus

Byddwn yn rheoli ein perthynas gyda’n holl gyflenwyr yn fwy effeithiol drwy gyfrwng swyddogaeth newydd i gael gwerth am arian o’r cytundebau hyn a sicrhau arloesedd wrth ddarparu ein cynnyrch a’n gwasanaethau.

### Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan...

Y byddwn wedi cynyddu ein lefel o gydweithio ac effeithiolrwydd gyda’n partneriaid.

Bydd nifer y cyfeiriadau gwahardd wedi cynyddu.

Bydd y gwelliannau yn ein perfformiad ar gyfer ein holl wasanaethau yn rhai diriaethol a chynaliadwy ar draws ein proses o un pen i’r llall.

# Blaenoriaeth Strategol: Ein Pobl, Nod Pump

Byddwn yn datblygu gweithlu talentog ac amrywiol sydd yn deall sut mae eu cyfraniadau yn helpu i gyflawni ein hamcanion.

### Pam fod hyn yn bwysig?

Er mwyn darparu'r strategaeth hon yn llwyddiannus bydd angen i ni fod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon. Bydd angen i ni ddenu a chadw staff medrus er mwyn parhau i ddatblygu ein busnes.

Mae gan ein pobl lawer o syniadau ac awgrymiadau ac maent yn awyddus i gael llais yn ein dyfodol. Maen nhw'n sylweddoli fod angen iddyn nhw ddatblygu eu medrau'n barhaus er mwyn gallu gwneud eu swyddi hyd eithaf eu gallu.

Mae angen diwylliant newydd arnom sydd yn hyrwyddo **UnDBS**, sydd yn agored a chynhwysol, yn annog arloesedd, creadigrwydd ac yn dathlu amrywiaeth, gan symud y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ymlaen flwyddyn ar ôl flwyddyn.

### Sut Wnawn ni hyn?

#### 1. Byddwn yn datblygu Academi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Byddwn yn datblygu academi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fydd yn canolbwyntio ar gydlynu ein holl weithgarwch ar ddysgu a datblygu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynllun achredu ar gyfer swyddogaethau penodol a sicrhau datblygiad parhaus ein pobl.

#### 2. Byddwn yn creu Tîm Adnoddau Dynol a Thîm Datblygu Sefydliad

Byddwn yn adeiladu ar y ddarpariaeth Adnoddau Dynol cyfredol a'n gallu i ddatblygu sefydliad presennol gyda'r academi er mwyn cynorthwyo'r newid diwylliannol o fewn y sefydliad.

#### 3. Byddwn yn rhoi Polisi Tâl newydd ar waith

Caiff polisi tâl ei weithredu a fydd yn ein caniatáu i fynd i'r afael ag anghysondebau gyda thâl ac yna adeiladu dyfodol cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn golygu rhoi cyfle i'n pobl symud drwy bob graddfa gyflog wrth iddyn nhw ddatblygu eu medrau. Byddwn yn gweithio gyda'r llywodraeth i gyflenwi hyn.

#### 4. Byddwn yn rhoi cynllun Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth newydd ar waith

Caiff cynllun gwobrwyo a chydnabyddiaeth ei ddatblygu sydd yn cydnabod yr hyn mae ein pobl wedi ei gyflawni, a gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

#### 5. Byddwn yn Rhoi System Adnoddau Dynol Newydd Metis ar Waith

Byddwn yn newid i system Adnoddau Dynol newydd o'r enw Metis, a fydd yn caniatáu staff a rheolwyr i hunan-weini. Bydd Metis yn cynnig.





**‘Byddwn yn datblygu academi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a fydd yn canolbwyntio ar gydlynu’r holl weithgarwch sy’n ymwneud â dysgu a datblygiad.’**

Swyddogaethau newydd i gefnogi gweithgareddau dysgu, rheoli talent a chynllunio gweithlu. Byddwn yn gweithio gyda’r llywodraeth ar hyn

### 6. Strwythur Sefydliadol Newydd

Byddwn yn ymgorffori strwythur sefydliadol Uwch Reoli er mwyn sicrhau gall y strategaeth hon gael ei chyflenwi. Bydd ein huwch reolwyr yn cofleidio ein gwerthoedd a’n hymddygiadau newydd i’n helpu i gefnogi ein pobl drwy’r newidiadau sydd o’n Blaenau.

### 7. Sefydlu Swyddogaeth Newid a Thrawsnewid Busnes Newydd

Byddwn yn creu swyddogaeth trawsnewid addas at y diben i reoli’r prosiectau cyffrous a’r cynlluniau sydd gennym ni ar gyfer y pum mlynedd. Bydd hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei reoli’n effeithlon ac yn darparu’r deilliannau.

### 8. Mwyhau ein gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Byddwn yn mwyhau cynrychiolaeth grwpiau perthnasol yn y newidiadau i’n gwaith gan sicrhau bod gan bobl fynediad cyfartal i gyfleoedd a sicrhau triniaeth deg.

### Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan...

Fydd ein mynegai ymgysylltu â staff yn gyffredinol wedi gwella.

Fydd gennym ni weithlu mwy amrywiol.

Fydd gennym ni weithlu sydd wedi’i hyfforddi a’i gefnogi’n well.

Fydd ein diwylliant yn asio’n well gyda’n Gwerthoedd ac Ymddygiadau.

Fydd Metis wedi’i roi ar waith.

# Ein Pobl, Nod Chwech

Byddwn yn adeiladu gweithle hyblyg, bywiog a chyfoes, lle gall ein staff ymgymryd â'u swyddi gan ddefnyddio ffyrdd modern o weithio sydd yn glyfar ac yn hyrwyddo UnDBS.

**Pam fod hyn yn bwysig?**
Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gweithredu allan o ddau safle mewn amgylchedd swyddfa draddodiadol. Dymunwn fod yn sefydliad o hyblygrwydd diofyn. Bydd gennym ni'r offer i ganiatáu ein staff i weithio o bell mewn modd sydd yn cynorthwyo recriwtio a chadw personél ac yn annog cynhyrchedd uwch. Bydd gennym ni gyfleusterau cyfoes, ar flaen y gad a thechnoleg hygyrch sydd yn rhoi i bawb yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i fod yn effeithiol.

**Sut wnawn ni hyn?**

**1. Byddwn yn cytuno ar Bolisi Gweithio'n Glyfar**
Caiff polisi newydd ei ddatblygu er mwyn tanategu symudiad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd tuag at drefniant o weithio'n glyfar sy'n llawn weithredol. Bydd y polisi'n cynnwys gwybodaeth ar feysydd fel diogelwch ac oriau gwaith, wedi'i reoli gan ddeilliant.

**'Bydd gennym ni gyfleusterau cyfoes, ar flaen y gad a thechnoleg hygyrch sydd yn rhoi i bawb yr hyn sydd ei angen arnyn nhw i fod yn effeithiol.'**



**2. Byddwn yn rhoi trefniadau gweithio o bell ar waith yn Darlington a Lerpwl**
Bydd y polisi Gweithio'n Glyfar yn adnabod yr hyblygrwydd a gaiff pob aelod o staff wrth allu gweithio o adref, y swyddfa neu adeilad arall.

**3. Byddwn yn ail-ddylunio ein Swyddfeydd yn Darlington a Lerpwl**
Byddwn yn moderneiddio ein gofodau er mwyn cynnwys gofodau cydweithiol, cyfleusterau modern a gwell amgylchedd gwaith.

**4. Byddwn yn cyflwyno Cynllun Llesiant Staff**
Byddwn yn datblygu cynllun llesiant staff integreiddiedig i gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Bydd hyn yn hyrwyddo iechyd meddyliol a chorfforol ac yn cefnogi staff i gyflawni gwell llesiant.

**5. Cynllun Gwyrdd Arloesol**
Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu amgylchedd gwaith cynaliadwy sydd yn gost effeithlon. Bydd hyn yn cynnwys sut y gallwn leihau gwastraff a gwella'n gweithle fel ei fod yn ysbrydoli a denu ein staff, a darpariaeth mannau gwefrio trydanol.

**Byddwn yn gwybod ein bod wedi llwyddo pan...**
Y byddwn wedi cynyddu bodlondeb aelodau o staff gyda'u hamgylchedd gwaith.

Fydd ein cynhyrchedd wedigwella.

Fyddwn yn cynhyrchu llai o wastraff.



# Cefnogi Ein Strategaeth

## Llywodraethiant

Bydd y Bwrdd yn goruchwylio darpariaeth y strategaeth hon a bydd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref wrth wneud hynny. Sefydlwyd Pwyllgor Newid gan y Bwrdd fydd yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd y strategaeth. Mae trefniadau tebyg mewn lle ar lefel weithredol. Byddwn yn adolygu'r strategaeth wedi tair blynedd ac yn gwneud unrhyw addasiadau sydd eu hangen yn seiliedig ar ein cynnydd a'n hamgylchedd allanol.

## Trawsnewidiad a Rheoli Rhaglen

Mae Cyfarwyddyd Trawsnewidiad a Newid Busnes yn cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gennym y gallu a'r cynhwysedd cywir i ddarparu'r strategaeth hon ac i sicrhau bod y trefniadau cywir ar gyfer rheoli'r rhaglen a'r project ar waith er mwyn cyflenwi'r blaenoriaethau allweddol.

## Cyllid ac Ariannu

Cawn ein hariannu gan y ffioedd a gawn gan ein cwsmeriaid datgelu. Mae ein hincwm yn ddibynnol ar y nifer o geisiadau a gawn am wiriadau a thanysgrifiadau Diweddaru Gwasanaeth a gawn bob blwyddyn. Bydd y ffioedd ar gyfer Gwiriadau Safonol a Manwl ynghyd â'r Gwasanaeth Diweddaru yn caniatáu i geisiadau gwirfoddol gael eu prosesu am ddim. Mae'r incwm a gynhyrchir gan wiriadau hefyd yn ariannu ein gweithgarwch Gwahardd.

Byddwn yn gosod cyllideb o fewn pob Cynllun Busnes blynyddol a fydd yn cynnwys y costau ar gyfer darparu'r strategaeth hon. Yn ystod cyfnod y cynllun hwn, byddwn yn adolygu ein ffioedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein costau yn aliniedig a'n bod yn cadw at egwyddorion rheoli arian cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod fod yna gost ar gyfer y gwasanaethau bydd unigolion a busnesau yn eu darparu ac anelwn at wella ein heffeithlonrwydd er mwyn i ni allu lleihau ein ffioedd dros gyfnod y strategaeth.

## Adrodd ar Ddarpariaeth

Yng Nghynllun Busnes pob blwyddyn bydd y Bwrdd yn cytuno ar set o dargedau a mesurau er mwyn monitro ein cynnydd wrth ddarparu'r strategaeth. Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd drwy'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Bydd y ddau gyhoeddiad ar gael ar ein gwefan.





**‘Mae Strategaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn un uchelgeisiol ac yn un sy’n canolbwyntio ar ansawdd a phobl.’**


## Casgliad

Strategaeth uchelgeisiol yw un y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd yn canolbwyntio ar ansawdd a phobl. Mae’n cynnig eglurder o ran diben, gweledigaeth, blaenoriaethau strategol a nodau; sut y byddwn yn ymddwyn a’r gwerthoedd rydym yn eu hymgorffori. Mae’n amlinellu’r hyn rydym eisiau ei gyflawni er mwyn gwella ansawdd ein cynnyrch a’n gwasanaethau a’r ystod o gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflenwi hyn. Bydd y pum mlynedd nesaf yn daith o welliant parhaus ac fe fyddwn yn gweld newid sylweddol a chadarnhaol. Byddwn yn parhau i edrych tuag at y dyfodol a sicrhau na fyddwn byth yn syrthio ar ei hôl hi.

Ein nod yn y pen draw yw galluogi cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Edrychwn ymlaen at weithio gyda’n staff, ein partneriaid a’r cyhoedd i sicrhau bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn chwarae ei ran yn y maes diogelu pwysig hwn.

# Ein Strategaeth ar un dudalen

Rydym wedi datblygu rhywbeth syml a gweledol i ddangos ein gweledigaeth, blaenoriaethau strategol, nodau, a'n cynllun lefel uchel o waith cychwynnol. Bu ein ffocws cychwynnol ar yr hyn y byddwn yn ei ddarparu yn ystod blynyddoedd cyntaf y strategaeth hon. Byddwn yn diweddaru hyn yn weledol yn 2023 er mwyn adlewyrchu'r hyn a fyddwn yn cynllunio i'w gyflenwi yn y blynyddoedd hynny o'r strategaeth sydd yn weddill. Caiff fersiwn mwy manwl ei gynhyrchu a'i gyhoeddi yn ein Cynllun Busnes blynyddol bob blwyddyn yn dangos pa gamau penodol a newidiadau a gaiff eu cyflenwi yn ystod yr amser hwnnw.




Disclosure & Barring Service

Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru yn 2023.

**Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Ewch i'n gwefan yn: www.gov.uk/dbs

Dewch o hyd i ni ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol amrywiol:

Twitter: @DBSgovuk
LinkedIn: Disclosure and Barring Service (DBS)
Youtube: Disclosure and Barring Service

Cysylltwch â ni:

Liverpool
PO BOX 165, L3 1QY